**Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**18 Tachwedd 2025**

Ym mis Hydref 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ei adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Mae’r adroddiad yn cynnwys tri argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i’r argymhellion hynny.

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Mae gwaith craffu’r Pwyllgor yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau y caiff materion cyfansoddiadol, cyfreithiol a datganoli eu harchwilio’n drylwyr, yn arbennig mewn perthynas â deddfwriaeth sydd â goblygiadau moesegol, cyfreithiol ac ymarferol sylweddol i Gymru.

Er eglurder, mae’r holl gyfeiriadau at gymalau yn yr ymateb hwn yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf o’r Bil, fel y’i dygwyd o Dŷ’r Cyffredin, y gellir dod o hyd iddo yng nghyhoeddiadau Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) - Biliau Seneddol - Senedd y DU.

Nod Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), a gyflwynwyd fel Bil Aelod Preifat yn Nhŷ’r Cyffredin, yw rhoi dewis i oedolion sy’n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â’u bywyd eu hunain i ben, yn amodol ar fesurau diogelu ac amddiffyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cymhlethdod y mater hwn a phwysigrwydd sicrhau bod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn parchu’r setliad datganoli a chyd-destun cyfreithiol penodol Cymru.

Rydym yn nodi bod y pwyllgor wedi canolbwyntio ar agweddau cyfansoddiadol a deddfwriaethol y Bil, gan gynnwys cwmpas y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd a’r rhyngweithio rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i weithio’n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a Noddwyr y Bil er mwyn sicrhau

y caiff y setliad datganoli ei barchu ac y caiff buddiannau o ran Cymru eu hystyried wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Pan fo argymhellion y pwyllgor yn ymwneud â materion datganoledig, megis iechyd a gofal cymdeithasol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r Senedd a phartneriaid perthnasol i sicrhau bod y bwriad polisi yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn unol â fframwaith cyfansoddiadol Cymru.

Diolchaf i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu hadroddiad manwl. Rwy'n ymateb i argymhellion y pwyllgor isod.

## Yr ymateb i'r tri argymhelliad

### Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 31, 34 i 40 a 42 i 59 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin).

Ymateb: Gwrthod.

Rwy'n nodi argymhelliad y pwyllgor bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 31, 34 i 40, a 42 i 59 o'r Bil, gan gynnwys cymalau newydd a ychwanegwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

Fel y nodir yn ein Memoranda, daeth ein hasesiad o dan Reol Sefydlog 29 i'r casgliad mai dim ond mewn perthynas â darpariaethau yng nghymalau 40, 42, 49, 51, 54 a 58 y mae angen cydsyniad y Senedd. Ar gyfer y cymalau eraill y cyfeiriodd y pwyllgor atynt, daeth ein hasesiad i'r casgliad na fodlonwyd y prawf yn Rheol Sefydlog 29.

Fel yr eglurwyd yn flaenorol, ni allwn ddarparu rhagor o fanylion ar yr asesiad hwn heb ildio braint broffesiynol gyfreithiol. Serch hynny, rwyf wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda'r Senedd i ddarparu'r wybodaeth y gellir ei rhannu ac i hyrwyddo gwaith craffu ar y Bil lle bo hynny'n briodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog esbonio pam y mae'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn creu pŵer cydredol yng nghymal 40 nad yw'n ddarostyngedig i fecanwaith cydsyniad perthnasol ac eithriad cysylltiedig i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Ymateb: Derbyn.

Y sefyllfa a ffefrir o hyd gan Lywodraeth Cymru yw y dylai pwerau cydredol mewn meysydd datganoledig fod yn ddarostyngedig, lle bo hynny'n briodol, i fecanweithiau cydsynio perthnasol ac eithriad cysylltiedig i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae cymal 40 o'r Bil yn darparu ar gyfer pŵer cydredol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi canllawiau. Mae'r trefniant hwn yn cyflwyno risg gyfansoddiadol isel, yn arbennig mewn amgylchiadau pan all canllawiau a ddyroddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ymwneud â materion datganoledig. Er nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer mecanwaith cydsynio, mae'n cynnwys gofyniad statudol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn dyroddi canllawiau. Yn fy marn i, mae'r gofyniad hwn i ymgynghori yn darparu mesur diogelu sy'n helpu i liniaru'r risg o orgyffwrdd neu wrthdaro. Byddem yn disgwyl i unrhyw ganllawiau gael eu llunio ar y cyd i sicrhau cysondeb â threfniadau polisi a chyflawni datganoledig.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau mai drwy reoliadau yn unig y caiff Gweinidogion Cymru gychwyn adrannau 42(1), 42(2), 51(2) a 51(3) o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) ac nad oes dyddiad olaf un o ran cychwyn yn awtomatig yn gymwys.

Ymateb: Derbyn.

Yn fy marn i, nid yw'r dyddiad olaf un o ran cychwyn yn awtomatig yng nghymal 58(4) o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn gymwys i adrannau 42(1) a (2) a 51(2) a (3), sydd i'w cychwyn drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 16 o Femorandwm Rhif 2 yn cyfeirio at y ffaith nad oedd y dyddiad olaf un o ran cychwyn yn awtomatig yn gymwys yn flaenorol (o dan y Bil fel y'i

diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) i drefniadau cychwyn yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi sut y gwnaeth gwelliannau y cytunwyd arnynt yn Nhŷ'r Cyffredin ddod â threfniadau cychwyn yng Nghymru o fewn cwmpas y dyddiad olaf un, ac eithrio mewn perthynas ag adrannau 42(1) a (2) a 51(2) a (3).

Goblygiadau Ariannol – Dim